

Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 03-01(p.4) (W)

Dyddiad: Dydd Gwener 13 Gorffennaf 2001

Amser: 10.30am hyd 1.00pm

Lleoliad: Neuadd y Gymuned, Llanidloes

ADNODDAU EJNI ADNEWYDDADWY YNG NGHYMRU

Sylwadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Cyflwyniad

1.1 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at drafodaeth y Cynulliad ar egni cynaladwy yng Nghymru.

1.2 Rhoddwn ein sylwadau mewn tair rhan. Yn Rhan Un rhoddir eglurhad o rôl yr Asiantaeth ym maes cynhyrchu ac arbed egni. Ceir sylwadau byr yn Rhan Dau ar safbwyntiau'r Asiantaeth ar rai technegau adnewyddadwy. Yn Rhan Tri rhoddir argymhellion a thargedau posibl ar gyfer datblygu egni adnewyddadwy.

Rhan Un – Rôl Asiantaeth yr Amgylchedd

2.1 Prif, ond nid unig, rôl yr Asiantaeth yn y maes hwn ar hyn o bryd yw rheoleiddio effaith amgylcheddol safleoedd neu gyfleusterau diwydiannol. O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 rydym yn rheoleiddio gorsafoddd trydan-dë r mewn perthynas â'u defnydd o ddë r. Newidiwyd y pwerau rheoleiddio hyn gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a'r rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (ARhLI). Hyd yn oed wedyn, cyfyngir ein pwerau o hyd i sicrhau bod gorsafoddd cynhyrchu egni unigol yn cwrdd â'r terfynau a'r egwyddorion a bennir yn y ddeddfwriaeth.

2.2 Yn achos rhai technegau adnewyddadwy megis ffermydd gwynt a thechnegau ton a llanw, mae gennym bwerau ymgynghorol yn unig mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Mae'r Asiantaeth yn rheoleiddio egni adnewyddadwy sy'n deillio o losgi biomas a bionwy lle mae'r cynhwysedd thermol gosodedig dros 3 MW. Pe bai angen lagë n ar gyfer dyfais lanw yna byddai angen inni drwyddedu unrhyw gronfa. O dan y rheoliadau ARhLI, mae'r Asiantaeth yn cymryd effeithlonedd egni i ystyriaeth yn y gweithfeydd a reoleiddir ganddi.

2.3 Pwrpas dyletswyddau rheoleiddio'r Asiantaeth yw gwarchod yr amgylchedd ac atal niwed. Gellir gwneud hyn orau mewn perthynas â chynhyrchu egni drwy newid i ffurfiau adnewyddadwy ar egni ar raddfa fawr. Yn ogystal â lleihau carbon deuocsid, dyma'r dull mwyaf effeithiol o leihau asideiddio ac effeithiau ar Ansawdd Aer o ganlyniad i losgi tanwyddau ffosil megis glo.

Rhan Dau – Safbwyntiau Asiantaeth yr Amgylchedd ar Dechnegau Egni Adnewyddadwy

2.4 Nid yw'r Asiantaeth yn ystyried bod nwy tirlenwi nac egni o wastraff trefol yn dod o fewn y diffiniad o ffynhonnell egni adnewyddadwy. Y rheswm am hyn yw bod llawer o gynnwys y gwastraff yn dod o adnoddau anadnewyddadwy a bod polisïau i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu yn golygu nad oes gan wastraff ddyfodol tymor-hir fel ffynhonnell egni.

2.5 Cred yr Asiantaeth fod gan egni adnewyddadwy y potensial i ddarparu egni cynaladwy go iawn ar gyfer cymdeithas, ac y gellir osgoi unrhyw effeithiau negyddol posibl drwy reoli'n ofalus ddatblygiad egni adnewyddadwy, gan sicrhau bod cynlluniau egni adnewyddadwy yn cael eu lleoli'n sensitif. Barn yr Asiantaeth yw bod problemau cynaladwyedd sylfaenol yn gysylltiedig â defnyddio tanwyddau ffosil a phë er niwclear, ond bod effeithiau amgylcheddol egni adnewyddadwy yn tueddu i fod yn fwy lleol ac yn haws i'w troi'n ôl, eu lleddfu neu eu rheoli.

2.6 Cydnabyddwn hefyd nad oes modd trosglwyddo i egni adnewyddadwy yn gyflym. Wrth i ni symud tuag at egni adnewyddadwy bydd angen trefniadau interim am nifer o flynyddoedd, gan ddefnyddio gweithfeydd Gwres a Phë er Cyfunol (CHP) tra effeithlon sy'n llosgi tanwyddau ffosil.

2.7 Mae ymelwa ar egni adnewyddadwy yn dibynnu ar gynaeafu'r llifau egni naturiol yn yr amgylchedd sy'n wasgaredig iawn o'u cymharu â'r egni dwysedd uchel a geir mewn tanwyddau ffosil. Mae hyn yn dod â chynhyrchu trydan adnewyddadwy yn nes at y defnyddiwr wrth i nifer yr unedau cynhyrchu lleol bach gynyddu. Mewn cyferbyniad, mae'r system ganoledig draddodiadol o gynhyrchu trydan yn dibynnu ar nifer cymharol fach o unedau cynhyrchu mawr sy'n mynd â chynhyrchu trydan a'i effeithiau amgylcheddol allan o olwg ac allan o feddwl y mwyafrif o bobl.

2.8 Bydd datblygu egni adnewyddadwy yn gorfodi pobl i feddwl o ddifrif am sut a ble mae trydan yn cael ei gynhyrchu a'r costau amgylcheddol a chymdeithasol cysylltiedig. Mae gan bobl heddiw fwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol o effaith datblygiadau nag yn y gorffennol. Os caiff strategaeth egni cynaladwy y DU ei rheoli'n dda, gallai'r ymwybyddiaeth ddyfnach hon gyfrannu at ddatblygu egni cynaladwy yn hytrach na chael ei hystyried yn rhwystr i ehangu egni adnewyddadwy.

2.9 Yn achos egni adnewyddadwy, ymddengys mai'r effaith amgylcheddol sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r effaith ar y dirwedd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos tyrbinau gwynt ar y tir nad

dynt fel arall yn gwneud unrhyw ddrwg i'r amgylchedd. Nid yw pawb yn ystyried bod presenoldeb tyrbin gwynt yn amharu ar yr amgylchedd. Mater o farn bersonol yn hytrach na mesuriad meintiol ydyw. Gall newid i'r dirwedd gael ei ddsbarthu'n fater amgylcheddol, ond mae ei effaith ar ansawdd bywyd a chynladwyedd yn deillio o wrthrychedd yr unigolyn.

2.10 Nid yw ffermydd gwynt yn effeithio ar natur na defnydd tir i'r fath raddau â mathau eraill o ddatblygiad. Er bod gwerthoedd personol yn bwysig wrth benderfynu beth yw effeithiau datblygiad, mae'n anodd pwysu materion esthetig yn erbyn y bygythiadau sylfaenol i systemau naturiol ar raddfa fyd-eang, rhanbarthol a lleol o ganlyniad i barhau i ddefnyddio tanwyddau ffosil.

2.11 Mae'r Asiantaeth yn cefnogi safbwynt Llywodraeth y DU nad oes llawer o le ar gyfer cynlluniau trydan-dë r mawr newydd. Credwn hefyd nad yw baredau llanw yn debygol o fod yn dderbyniol oherwydd eu heffaith sylweddol iawn ar ecoleg systemau morydol. Rydym o'r farn na ellid gwneud cynllun bared ar gyfer Afon Hafren yn amgylcheddol dderbyniol, yn bennaf oherwydd statws llawer o Foryd Afon Hafren fel Ardal Gwarchod Arbennig o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Serch hynny, mae'r Asiantaeth yn ystyried bod tyrbinau ar nentydd llanw yn addawol a derbyniol iawn gan fod y dechnoleg hon yn cael llawer llai o effaith amgylcheddol na baredau.

Rhan Tri – Argymhellion a Thargedau

3.1 Er mai bras iawn yw'r targedau a awgrymwn ar hyn o bryd, credwn ei bod hi'n bwysig dechrau trafodaethau ar osod targedau mor fuan â phosibl. Bwriad yr awgrymiadau canlynol yw rhoi hwb i'r trafodaethau hyn.

Ffermydd Gwynt Alltraeth

3.2 Ein hargymhellion mewn ymateb i ddogfen ymgynghori'r Cynulliad oedd:

Nodi safleoedd gosod posibl yn y môr a gwneud ymchwiliad manwl iddynt;

Gwneud astudiaeth i weithgareddau gweithgynhyrchu a gwasanaethu yng Nghymru a cheisio ffyrdd o gynyddu'r potensial ar gyfer y gweithgareddau hyn;

Dylid sefydlu Asiantaeth Egni Cynladwy Cymru i ddarparu gwasanaeth ymgynghorol i hwyluso gwneud ceisiadau drwy ddilyn llwybr cais un-stop y Dti.

3.3 Y targedau a awgrymwn yw:

Sefydlu pedair fferm wynt alltraeth gyda chynhwysedd cyfunol o 125 MW o leiaf erbyn 2010;

Gwario 20% o gostau cyfalaf ffermydd gwynt alltraeth yng Nghymru erbyn 2010.

Ffermydd Gwynt ar y Tir

3.4 Ein hargymhellion mewn ymateb i ddogfen ymgynghori'r Cynulliad oedd:

Cynnwys budd-ddeiliaid mewn proses a fydd yn annog nodi safleoedd posibl mewn Cynlluniau Lleol;

Adolygu'r dewisiadau ar gyfer safleoedd lle mae buanedd y gwynt yn llai er mwyn hybu ffermydd gwynt neu dyrbinau unigol mewn ardaloedd trefol;

Codi ymwybyddiaeth o ffermydd gwynt ac addysgu'r cyhoedd, e.e. drwy sefydlu canolfannau ymwelwyr mewn rhai ffermydd a thrwy godi arwyddion at ffermydd gwynt ar lwybrau sydd wedi'u marcio.

3.5 Argymhellwn y targedau a ganlyn:

Dylai fod cynhwysedd o 500 MW yng Nghymru erbyn 2010;

Dylai 20% o gostau cyfalaf ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru gael eu gwario erbyn 2010.

Biomass

3.6 Ein hargymhellion mewn ymateb i ddogfen ymgynghori'r Cynulliad oedd:

Rhaid cael ateb i'r sefyllfa "Catch 22" bresennol lle na all Gorsaf Bë er Fiomass gychwyn heb fod ganddi gyflenwadau sicr a lle nad yw ffermwyr yn barod i dyfu cnydau biomass heb farchnad. Gellid gwneud hyn drwy adeiladu gorsaf bë er beilot sy'n defnyddio gwastraff o goedwigoedd i ddechrau ac yna danwydd a dyfir fel cnwd;

Nodi safleoedd addas ar gyfer gorsafoedd pê er sy'n defnyddio biomass. Mae'n bosibl bod gan safleoedd trefol well isadeiledd cludiant ac, yng Nghymru, gallant fod yn agos at y cyflenwadau;

Nodi safleoedd diffaith lle gellid tyfu cnydau egni;

Cyflwyno Cynllun Cnydau Egni tebyg i'r un yn Lloegr i helpu ffermwyr i symud tuag at dyfu cnydau tanwydd;

Defnyddio'r Asiantaeth Egni Cynladwy Cymru arfaethedig i ddarparu gwasanaeth ymgynghorol i hwyluso ceisiadau am ganiatâd cynllunio a hawlenni o dan y rheoliadau Atal a

Rheoli Llygredd Integredig (ARhLII);

Ble bynnag y bo modd, dylai biomas gael ei ddefnyddio i gynhyrchu gwres a phë er cyfunol (CHP).

3.7 Awgrymwn dargedau megis:

Cynhyrchu 100 MW o drydan drwy ddefnyddio biomas yn danwydd erbyn 2010; dylai 40 MW o hyn fod yn wres a phë er cyfunol;

"X" hectar o dir yn tyfu cnydau biomas.

Trydan-Dë r

3.8 Ein hargymhellion mewn ymateb i ddogfen ymgynghori'r Cynulliad oedd:

Defnyddio'r Asiantaeth Egni Cynladwy Cymru arfaethedig i hwyluso datblygu strategaeth trydan-dë r ar y cyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a datblygwyr a fyddai'n cynnwys cynlluniau llif isel.

3.9 Awgrymwn y dylai'r Cynulliad fabwysiadu'r targed canlynol:

20 MW yn ychwanegol o gynhwysedd erbyn 2010.

Systemau Gwres Solar a Ffotofoltaig

3.10 Ein hargymhellion mewn ymateb i ddogfen ymgynghori'r Cynulliad oedd:

Hybu'r defnydd o wres solar a systemau ffotofoltaig mewn adeiladau cyhoeddus a chynlluniau tai newydd drwy newidiadau mewn polisi adeiladu a grantiau i gymdeithasau tai;

Hybu datblygiad Diwydiant Cymreig sy'n gwneud cynhyrchion i ateb y galw a grëir gan yr argymhelliad uchod;

Asesu'r potensial ar gyfer systemau ffotofoltaig ar hyd ymylon traffyrdd.

3.11 Awgrymwn y dylai'r Cynulliad fabwysiadu'r targedau canlynol:

Systemau solar a ffotofoltaig yn gyfwerth â 10 MW erbyn 2010;

50% o systemau wedi'u gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Argymhellion Cyffredinol

3.12 Argymhellwn y dylai Asiantaeth Egni Cynladwy Cymru gael ei sefydlu a fyddai'n:

Meithrin partneriaethau;

Rhoi cyngor ar becynnau cyllid a datblygu'r pecynnau hyn;

Helpu grwpiau cymunedol lleol i sefydlu cyfleusterau egni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned (yn rhannol neu'n gyfan gwbl);

Helpu i greu hinsawdd lle gall egni adnewyddadwy ffynnu. Byddai hyn yn cynnwys gweithio gyda'r cyfryngau, gweithredu gwefan egni adnewyddadwy, helpu i greu prosiectau arddangos, hybu canolfannau ymwelwyr, a darparu deunydd addysgol at ddefnydd ysgolion;

Darparu gwybodaeth a chynghor o ansawdd uchel i'r cyhoedd, datblygwyr, rheoleiddwyr a Chyrrff An-lywodraethol;

Darparu arbenigedd ar reoleiddio, cynllunio a hawlenni;

Hwyluso ymchwil a datblygiad;

Dod o hyd i gyfleoedd economaidd.

Casgliad

3.13 Mae angen strategaeth sy'n hybu datblygiad egni cynladwy ac adnewyddadwy er mwyn gwarchod amgylchedd a thirwedd Cymru rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd, asideiddio ac ewtroffeiddio.

3.14 Hyd yn oed heb yr angen i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, mae rhesymau economaidd da dros ddatblygu egni adnewyddadwy gan y bydd olew a nwy yn mynd yn fwyfwy drud wrth i adnoddau olew a nwy y DU fynd yn fwy prin.

3.15 Mae'r Asiantaeth yn cefnogi targed y Cynulliad a Llywodraeth y DU i gyflenwi 10% o drydan y DU o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Credwn y dylai'r Cynulliad hefyd osod, ac annog Llywodraeth y DU i osod, targed ar gyfer gwres adnewyddadwy fel ffordd o leihau'r gollyngiadau carbon deuocsid sylweddol sy'n gysylltiedig â gwresogi adeiladau.

3.16 Mae'r Asiantaeth yn cydnabod mai pê er o'r gwynt, cnydau egni a chynhyrchion coedwig

fydd bwysicaf wrth geisio cyrraedd y targed o 10% gan mai'r rhain yw'r technolegau sydd wedi'u datblygu fwyaf. Bydd y ffynonellau egni adnewyddadwy eraill, megis pë er o'r tonnau, yn chwarae rhan fach yn unig mewn cyrraedd y targed ar gyfer 2010 ond bydd ganddynt rôl bwysicach wedi 2010.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Gorffennaf 2001